# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 3

CYDNABOD CYRFF DYFARNU

*Meini prawf cydnabod*

### 7 Diwygio meini prawf cydnabod cyffredinol a meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster

(1) Caiff Cymwysterau Cymru ddiwygio—

(a) y meini prawf cydnabod cyffredinol;

(b) y meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster.

(2) Os yw Cymwysterau Cymru yn diwygio'r meini prawf, rhaid iddo—

(a) cyhoeddi'r meini prawf fel y'u diwygiwyd, a

(b) pennu pa bryd y mae'r diwygiadau i gael effaith.

(3) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan is-adran (2)(b) beidio â rhagflaenu'r dyddiad y cyhoeddir y meini prawf diwygiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 7.